



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusenlechyd
Caerdydd a'r Fro

ARTS


FOR HEALTH AND WELLBEING

ADRODDIAD
BLYNYDDOL
2020-2021





CYNNWYS

- 
- 
- 
- 
- 3 **NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R CYFLWYNIAD**
- 4 **CWRDD Â'R TÎM**
- 5 **FYDDAI DIM MODD GWNEUD YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD HEBOCH CHI**
- 6 **UCHAFBWYNTIAU**
- 7 **ORIEL YR AELWYD**
- 8 **DATHLU MEDDYGAETH**
- 9 **CEFNOGI CLEIFION**
- 10 **DATHLU DIWYLLIANT A CHYNHWYSIANT**
- 11 **YSBYTY BRENHINOL CAERDYDD**
- 12 **CEFNOGI EIN CYMUNEDAU**
- 13 **CEFNOGI ADFERIAD**
- 14-15 **CEFNOGI'R CELFYDDYDAU AR GYFER IECHYD A LLES**
- 16 **2022**
- 17 **MYFYRDODAU**
- 
- 
- 



CHARLES JANCZEWSKI,

CADEIRYDD, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Rydym yn ffodus iawn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i allu cynnig cyfle i'n cleifion a'n staff gefnogi eu lles drwy gelf. Mae rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yng Nghaerdydd a'r Fro yn tyfu ac yn ehangu'n gyson wrth i ni wrando ar ein cleifion, eu teuluoedd a'n staff a'r hyn sydd ei angen arnynt er mwyn eu cadw'n iach. Mae'r ystod o brosiectau a chyfranwyr yn arwydd clar o effaith ac apêl gadarnhaol y celfyddydau ar bob un ohonom. Y ffordd y mae rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, wedi addasu yn ystod cyfnod heriol i barhau i ddarparu llawenydd i bob un ohonom, wedi bod yn wirioneddol anhygoel.

Mae cymorth Tîm y Celfyddydau wedi bod yn amhrisiadwy i'n cleifion a'n staff, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae cydnabod a chefnogi anghenion ysbrydol ac emosiynol ein cleifion a'n staff wedi bod yn bwysig iawn gan ei fod wedi eu helpu i wynebu heriau'r cyfnod digynsail hwn wyneb yn wyneb. Wrth edrych o amgylch ein safleoedd rwy'n hynod falch o'r gwaith a wnaed gan y tîm a'r ffordd y mae wedi gwella bywydau ein cleifion a'n staff, gan hyrwyddo cynhwysiant yn ogystal â lles meddyliol ac ysbrydol.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau i wyllo ein rhaglen Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn tyfu ac yn datblygu yn 2022 wrth iddi barhau i wella bywydau trwy gelf.

CYFLWYNIAD

Mae eleni wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol y mae'r GIG erioed wedi'u profi. Mae COVID-19 wedi rhoi pwysau aruthrol ar ddarpariaethau'r gwasanaeth iechyd ac rydym yn falch ein bod ni, fel Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, gyda chymorth Elusen Iechyd swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, wedi llwyddo i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi staff a chleifion yn ystod y cyfnod hwn.

Mae effaith eithafol COVID-19 ar ein bywydau pob dydd wedi parhau i gael ei theimlo drwy gydol 2021. Mae ffyrdd rhithwir newydd o weithio bellach wedi dod yn rhan annatod o'n cymdeithas a bu'n rhaid i Dîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles barhau i ddatblygu ac addasu i'n galluogi i barhau i ddarparu profiadau Celfyddydol i'n cleifion, eu teuluoedd a'n cydweithwyr yn y GIG.

Gallwn ni i gyd gytuno nad yw eleni wedi bod yn hawdd. Mae addasu i'r 'normal newydd' yn ogystal â chadw ffrindiau, teulu a chyd-fodau dynol mor ddiogel â phosibl wedi ychwanegu straen a phryder aruthrol at fywyd pob dydd. Mae Tîm y Celfyddydau yn hynod falch ein bod, er gwaethaf y cyfnod anodd hwn, wedi parhau i ddod â llawenydd, heddwch a chyfleoedd creadigol, gan ganiatáu dihangfa a seibiant rhag pwysau bywyd.

Un o brif nodau Tîm y Celfyddydau yn ystod 2020-21 oedd cyd-fynd ag amcan y Bwrdd Iechyd o gefnogi lles staff ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhai enghreifftiau rhagorol o sut rydym wedi llwyddo. Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen amdanynt.

CWRDD Â'R TÎM

Rydym yn dîm bychan ond ymroddedig o artistiaid a phobl sy'n dwlu ar gelf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae pob un ohonom yn gwybod am fuddion y celfyddydau i brofiad cleifion ac yn frwd dros barhau i ddatblygu arlwy celf y bwrdd iechyd.



GWOBRAU BYWYD CAERDYDD

Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles oedd enillydd balch y categori Iechyd a Lles yng Ngwobrau Bywyd Caerdydd 2021.

Enwebwyd Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles am addasu'n gyflym i newidiadau yn y sector i barhau i ddarparu celf ac arddangosfeydd hygyrch i lawer o bobl leol trwy greu'r Oriel Rithwir, pan fu'n rhaid i Oriel yr Aelwyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau gau mewn ymateb i gyngor Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig COVID-19. Roedd y Tîm yn manteisio ar dechnolegau a dulliau gweithio newydd er budd cleifion, staff a'r gymuned, gan gynnwys parhau i godi arian ar gyfer y rhaglen trwy werthu celf ar-lein.



FYDDAI DIM MODD GWNEUD YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD HEBOCH CHI

Hoffai Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles ddiolch i'n sefydliadau partner yn y Gymuned Celfyddydau mewn Iechyd yng Nghymru a'r tu hwnt. Ni allem weithio i'r graddau yr ydym wedi llwyddo i wneud heb eu cefnogaeth.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wedi elwa'n aruthrol ar gyllid Meithrin Gallu am dair blynedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn wedi galluogi'r Tîm i ffynnu a chael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i gleifion, staff, ymwelwyr a chymunedau sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen eclectig, amrywiol ac uchelgeisiol dros y tair blynedd diwethaf.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio'n ddiflino i ymgorffori agenda'r Celfyddydau ac Iechyd a gwarchod y sector celfyddydau yng Nghymru. Mae angen y ffocws hwn i wella profiad iechyd a lles a newid diwylliant darpariaeth y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol.

Cyn COVID-19, roedd cynnydd mawr yn cael ei wneud o ran cydnabod buddion y celfyddydau creadigol i iechyd corfforol, iechyd meddwl ac ymdeimlad o les cyffredinol pobl mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai.




Mae'r cydweithio rhwng Nesta, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru a Thîm Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles trwy raglen arloesi ac ymchwil 'HARP' (Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl) wedi bod yn rhan ganolog o Raglen y Celfyddydau.

Dim ond os yw'r amodau priodol ar waith y gellir hadu, meithrin a gwreiddio arloesedd: gwaith tîm, bod yn agored a chaniatâd gan arweinyddiaeth i ddod o hyd i atebion newydd a gwell. Yn benodol, mae'r cyllid hwn wedi galluogi gwaith gyda'r Tîm Ffibrosis Systig i ddangos uchelgais gwirioneddol ac ymgorffori creadigrwydd o fewn y gwasanaeth a harneisio pŵer y celfyddydau i gefnogi penderfyniadau a rennir yn well rhwng cleifion a staff.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl gyfranwyr a'n cyllidwyr am ganiatáu i ni barhau i weithio ar ein prosiectau Celfyddydau mewn Iechyd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n rhoi'r adnoddau i ni sicrhau bod cleifion, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr yn gallu profi'r budd y mae'r celfyddydau'n ei ddarparu.


Mae eu cefnogaeth barhaus yn ein galluogi i fynd i'r afael â heriau, gwella profiadau cleifion ac ymgorffori arloesedd yn niwylliant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



Dyfarnwyd £28,600 i Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles fel rhan o'r cyllid sydd ar gael gan Arts and Minds, rhaglen newydd Sefydliad Baring a Chyngor Celfyddydau Cymru. Nod y rhaglen yw hybu iechyd meddwl gwell yng Nghymru ac fe'i cefnogir gan y Loteri Genedlaethol. Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wrth wraidd cynnig y Bwrdd Iechyd.

Bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn gweithgareddau creadigol i gefnogi iechyd meddwl oedolion. Bydd yn helpu i gryfhau arlwy celf y Coleg Adfer a Lles, gan alluogi'r coleg i ehangu ar gyrsiau sy'n cefnogi gwella trwy greadigrwydd a chelf. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi argaeledd gweithgareddau symud a cherddoriaeth yn yr Adran Niwroseiciatreg, gan helpu i ymgysylltu â rhai o gleifion y Bwrdd Iechyd sydd fwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn gweithio gyda 4 Winds Mental Health Resource ym Mhafiliwn Bowlio Gerddi'r Faenor.

Gwyddom o brofiad uniongyrchol fod y celfyddydau a chreadigrwydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd meddwl. Bydd yr arian hwn yn allweddol wrth alluogi'r Bwrdd Iechyd i wella ei gynnig o gyfleoedd creadigol a fydd yn y pen draw yn cefnogi pobl wrth wella.



“Mae creu gwaith celf yn galluogi'ch meddwl i fod mewn lle diogel wrth iddo ystyried y materion anoddach rydych chi'n delio â nhw. Gall rhywun ddefnyddio offer megis brwsh, paent, pastelau, creonau ac ati i amlygu a – hyd yn oed am amser byr – lliwio'r materion hynny mewn golau gwahanol.” — George E. Miller



ORIEL YR AELWYD

AMY JACKSON — "ARWYR DI-GLOD"

Cynhaliodd Tîm y Celfyddydau arddangosfa o brintiau o ddarluniau pwyntyddiaeth o staff y GIG yn ystod y pandemig gan Amy Jackson yn sgwâr Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae'r syniad ar gyfer y prosiect a'r casgliad o waith wedi'i ysbrydoli'n fawr gan y pandemig a'r golled a'r dinistr y mae wedi'u hachosi i'n bywydau.



GŴYL GWANWYN 2021 — "CYSYLLTIADAU: ARCHWILIO CREADIGRWYDD, NATUR A HUNANIAETH"

Mae "Cysylltiadau: Archwilio creadigrwydd, natur a hunaniaeth" yn brosiect celf cydweithredol rhwng myfyrwyr ar y cwrs BA (Anrh) Celfyddydau Creadigol a Therapiwtig ym Mhrifysgol De Cymru a'r cleifion a'r staff ar Ward y Dwyrain 18, ward Iechyd Meddwl Oedolion yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.




GWIRFODDOLWYR PROFIAD CLEIFION "CYMAINT WEDI'I ENNILL"

Gan arddangos gwaith celf a grëwyd mewn amrywiaeth o gyfryngau, tynnodd yr arddangosfa sylw at bwysigrwydd Gwirfoddolwyr Tîm Profiad Cleifion i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ac mae'n dathlu eu sgiliau a'u doniau anhygoel.



JANE SHIPTON "CELF BELS"

Dechreuodd Jane baentio ar ôl datblygu parlys Bell yn ystod y cyfnod clo. Ers hynny mae hi wedi cynhyrchu cyfres o baentiadau gwych sy'n archwilio lliw a gwedd. Mae'n gobeithio y bydd ei gwaith celf yn cael effaith gadarnhaol ar les y gwylwyr a bydd yn eu hysbrydoli i fod yn greadigol.



#EGNI/CYFLWR/YMATEB


Roedd Oriel yr Aelwyd yn falch iawn o gynnal arddangosfa ryngwladol gan yr artist o'r Almaen Jenny Brockmann, a guradwyd gan Linda Rocco. Roedd #EGNI/CYFLWR/YMATEB yn archwilio priodweddau'r afu gan arwain at ddau ddigwyddiad lle cymerodd yr artist a'r cyfranogwyr ran mewn trafodaeth wrth eistedd ar osodiad cerflun Jenny Brockmann, Sedd#12.



DATHLIAD O FEDDYGINIAETH

SUSAN WONG A BRIDGET O'BRIEN "ARWYDDOCÂD DIABETES I MI"

Arddangosfa gelf sy'n seiliedig ar ymchwil yn dathlu can mlynedd ers darganfod inswlin. Gan gynnwys cyfranogiad ac ymatebion cymunedol, ffilmiau clinigol, gwaith celf, ymchwil a gosodiad, mae'r arddangosfa hon yn gyflawniad cydweithredol ac yn ddathliad o'r holl waith a'r ymroddiad tuag at ddeall Diabetes.



DAWNS RUBICON

Mae Tîm y Celfyddydau yn parhau i weithio ar y cyd â Rubicon Dance gan gyflwyno cerddoriaeth a symudiadau mewn lleoliadau amrywiol gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus yn y Ganolfan Adsefydlu Strôc yn UHL, Ward y Dwyrain 18, Ward 8 a Ward 7, Ysbyty Dewi Sant.


BETH MORRIS "CYDIO YNG NGOBAITH"

Cyfarfu tîm Gweithdai Beth Morris â myfyrwyr o bob oed a gallu bron trwy gydol y pandemig gan ddod â geiriau, lluniau a gobaith at ei gilydd. Efallai bod yr artistiaid oedd yn ymwneud â "Cydio yng Ngobaith" wedi'u hymbellhau'n gymdeithasol ond roeddent wedi'u cysylltu gan llyn cyffredin. Cariad at gelf.



CELF FRECHU

Comisiynwyd yr artist Nathan Wyburn gan dîm y Celfyddydau i greu darn o gelf a fyddai'n cydnabod gwaith caled ac ymroddiad y rhai sy'n gweithio ar Raglen Frechu COVID-19 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



DATHLIAD O FEDDYGINIAETH

FORGET-ME-NOT CHORUS

Mae'r Forget-me-not-Chorus yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia ac ochr yn ochr ag ef trwy rannu llawenydd canu mewn partneriaeth â rhaglen y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles, rhan o Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro gyda chymorth ariannol gan y rhaglen HARP i ddarparu sesiynau canu ac ymgysylltu.

Mae'r prosiect Llinynnau Digidol yn cysylltu cleifion sydd â dementia, aelodau eu teuluoedd a staff yn staff yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd ac yn cael ei hwyluso gan staff o Mental Health Matters Wales.

Roedd y sesiynau canu a arweiniwyd gan Kate Woolveridge (Cyfarwyddwr Artistig, FMNC) yn defnyddio caneuon i gysylltu â'r cyfranogwyr a chasglu cerddoriaeth a straeon sy'n berthnasol i'r cleifion, yna roedd awdur yn gwau elfennau o'r straeon hyn yn ddarn o ryddiaith i gynrychioli ac anrhydeddu'r holl gyfranogwyr, gan adlewyrchu'r sgwrs a ysgogwyd trwy gân. Mae'r farddoniaeth hon wedi'i ffurfio'n ddarn o waith celf a grëwyd gan Nathan Wyburn, a fydd yn cael ei arddangos yn Ysbyty Dewi Sant.



Digital Threads:

'I'll find your voice though you lost it long ago.
I'll sing for you -
Be your rhythm, your allegro, your adagio.

Wanderlust, adventure, you never lose it you know;
I may not have the same get-up-and-go
But my heart beats beneath Africa's endless skies
Mesmerised, hypnotised by the
Beautiful sky, O wonderful day
So let's whip crack away, whip crack away
just you and I.

Nid yw'r gerdd hon wedi'i chyfieithu oherwydd ei bod wedi'i chreu gan ddefnyddwyr yn Saesneg



CEFNOCI CLEIFION

LLES GYDAG OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

Mae Tîm y Celfyddydau yn gweithio ar brosiect cyffrous gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac Opera Cenedlaethol Cymru i ddylunio a chyflwyno rhaglen ganu ac anadlu i gefnogi pobl sydd â COVID Hir yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal ar-lein ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi pobl a allai fod yn profi teimladau o ddiffyg anadl a phryder a allai barhau yn y tymor hwy ar ôl symptomau COVID-19.

Trwy ddefnyddio ymarferion anadlu a thechnegau canu i gyfrannu at reoli anadl yn well, swyddogaeth yr ysgyfaint, cylchrediad y gwaed ac ystum y corff mewn amgylchedd cymdeithasol a llawen, mae'r prosiect yn addysgu technegau hunanreoli ac yn cysylltu cyfranogwyr ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

RENGARIFIC

Mae Tîm y Celfyddydau ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o gymryd rhan mewn prosiect ledled Cymru a gychwynnwyd gan Y Lab a Thîm People Powered Results Nesta ar ddechrau'r cyfnod clo a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau celfyddydol yn rhithwir ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.

Cynhaliwyd y prosiect yn 2020 ac arweiniodd at arddangosfa gofiadwy gan Oriel yr Aelwyd ac Oriel Rithwir yr Aelwyd ddechrau 2021. Cafodd aelodau'r staff eu hysbrydoli gan y prosiect i estyn y ddarpariaeth o weithgareddau creadigol ar-lein i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac mae llawer o aelodau'r staff eu hunain yn creu gweithiau celf ar gyfer arddangosfa newydd ar hyn o bryd.

CF VOICES

Mae CF Voices yn brosiect arloesol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Y Lab (Prifysgol Caerdydd a Nesta), trwy raglen Meithrin HARP, gan weithio ar y cyd â Four in Four a Chanolfannau Ffibrosis Systig Oedolion Cymru Gyfan yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau.

Mae CF Voices yn brosiect parhaus yn ystod 2021-2022, ac yn gydweithrediad ffrwythlon rhwng Tîm y Celfyddydau, Four in Four ac aelodau staff ymroddedig CF Voices. Y nod yw cynyddu cysylltiadau, meithrin perthnasoedd a gweithio tuag at wasanaeth gwneud penderfyniadau a rennir ar gyfer pobl sy'n byw gyda ffibrosis systig trwy sgysiau creadigol a'r celfyddydau. Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i archwilio mewn mwy o fanylder y buddion mae'r celfyddydau ym maes iechyd yn gallu eu dwyn i'n gwasanaethau, gan sicrhau bod cyfle i bob llais gael ei glywed.

DATHLU DIWYLLIANT A CHYNHWYSIANT

NATHAN WYBURN

WYTHNOS PROFI HIV

Bu'r artist ac un o noddwyr Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, Nathan Wyburn, yn nodi lansiad Wythnos Profi HIV Cymru gyda'i gomisiwn diweddaraf ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles. Creodd Nathan y portread hwn o Mark Ashton, gweithredydd hawliau hoyw Prydeinig a chyd-sylfaenydd y grŵp Lesbians and Gay Men Support the Miners (LGSM), gan ddefnyddio siarcol o Gymru.



JAYDAN ALEXANDER

Roeddem yn falch o gomisiynu'r artist trawsryweddol, Jaydan Alexander, i greu darn sy'n dathlu PRIDE. Fel ni, mae Jaydan yn credu mewn rhoi llais i'r rhai nad ydynt yn cael y cyfle i gael eu gweld yn ddigon aml, mewn byd sy'n gallu costio popeth, gan dynnu sylw at y ffaith bod creadigrwydd fel creawdwyr cwiar yn rhywbeth i'w werthfawrogi.



GUNK ILLUSTRATION - RHYFEDDOD

Roedd yr artist, sydd yn ôl ei ddisgrifiad ei hun yn ddarlunydd cwiar a thrawsryweddol, wrth ei fodd o gael y cyfle arbennig hwn i greu darn o waith ar gyfer Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn ystod Pride 2021 sy'n dathlu amrywiaeth staff a chleifion yn y GIG.

KYLE LEGALL - MAE BYWYDAU DU O BWYS

Comisiynwyd Kyle i greu clwstwr o ddelweddau o gymeriadau sy'n cynrychioli staff y Bwrdd Iechyd yn yr holl rolau amrywiol o fewn system gofal iechyd. Bydd y gwaith yn cael ei osod ar hysbysfwrdd yn Grangetown ac ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd.



"Yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn, rwyf wedi bod wrth fy modd yn cymryd rhan yn y prosiect hwn. Mae cwrdd â staff y GIG a chlywed eu straeon am sut roedd hi iddyn nhw yn ystod y pandemig wedi fy helpu i ddylunio'r delweddau hyn trwy fy llygaid fy hun, gan ddehongli'r hyn maen nhw wedi'i brofi. Rwy'n eu gweld fel archarwyr ac rwy'n gobeithio bod fy nghelf yn adlewyrchu hynny."


YSBYTY BRENHINOL CAERDYDD



CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT I BAWB

Mae'r waliau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn arddangos gwaith celf ysbrydoledig a dyrchafol i adlewyrchu ymrwymiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i weithio gyda chleifion, staff a chydweithwyr ac i ddarparu cymorth fel rhan o'u hymrwymiad ar y cyd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb.

Cynhyrchwyd y gwaith celf unigryw hwn i gydnabod cymunedau amrywiol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg ac mae'n cynrychioli'r hyn y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei gynnig yn ei wasanaethau: rhoi dyngarwch, caredigrwydd a thosturi wrth wraidd ei wasanaeth, gyda'r nod o gael gwared ar y rhwystrau sy'n arwain at ymdrech ddiangen ac arwahanrwydd.



GWASANAETH CYNHWYSIANT IECHYD CAERDYDD

Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn Feddygfa Teulu a reolir gan y Bwrdd Iechyd sy'n rhoi mynediad i wasanaethau hanfodol ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd gan gynnwys Ceiswyr Lloches a Chleifion Hafan Ddiogel.

Mae Tîm y Celfyddydau wedi gweithio gyda'r practis i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i gleifion a'u teuluoedd gan ddefnyddio celf. Mae cynnwys barddoniaeth o fewn y gelf wal hefyd wedi helpu i hyrwyddo profiad llonydd a thawel i'r rhai sy'n dod i'r clinig. Cefnogwyd y darn hwn gan arian Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd.



YSBYTY BRENHINOL CAERDYDD:


POBL, LLE, DYFODOL

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wrth ei fodd o dderbyn arian a chymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru trwy Gronfa Celfyddydau, Iechyd a Lles newydd y Loteri Genedlaethol i ymgymryd â'r prosiect hwn. Nod Ysbyty Brenhinol Caerdydd; pobl, lle, dyfodol yw ail-lunio perthynas ddyfnach a mwy hygyrch â gwasanaethau'r GIG i bawb, trwy'r celfyddydau creadigol ac i bobl yn eu cymunedau.

Mae Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn datblygu fel Canolfan Iechyd a Lles arloesol. Mae eisoes yn darparu ystod enfawr o wasanaethau i bobl Caerdydd ac ar draws Cymru gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, mynediad at iechyd i geiswyr lloches a ffoaduriaid a chymorth i fenywod a theuluoedd sy'n agored i niwed.

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wrth ei fodd o weithio gyda'i bartneriaid: Cymorth i Fenywod Caerdydd, Oasis, Amgueddfa Cymru, y cyfansoddwr a'r artist sain John Rea, y gwneuthurwr ffilmiau a ffotograffydd Huw Talfryn Walters a'r cynhyrchydd Oliver Norcott.

Hefyd yn rhan o'r prosiect hwn mae Duke Al Durham, Bardd Iaith Lafar a'i dîm o gydweithwyr, Ysgol Tredegarville, a rhwydwaith o artistiaid cymunedol a sefydliadau trydydd sector.



GROSVENOR INTERIORS

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer lechyd a Lles yn falch o fod wedi gweithio unwaith eto gyda Grosvenor Interiors ar rai prosiectau Celfyddydol anhygoel. Un o amcanion rhaglen y Celfyddydau, gyda chefnogaeth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yw gwella profiad ein cleifion a'u teuluoedd, ac rydym yn falch o fod wedi cydweithio â Grosvenor i ddylunio a gosod gwaith celf finyl mewn rhai o'n safleoedd ysbyty.

YSTAFELL PETER GREY, YSBYTY ATHROFAOL CYMRU

Cynlluniwyd y gwaith celf a osodwyd yn ystafell y staff yn Ystafell Peter Gray er mwyn hyrwyddo llonydd, ond hefyd fel 'Diolch' penodol i staff yr Uned Gofal Dwys sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy'r Pandemig.



"Roeddem am nodi gwaith caled staff yr Uned Gofal Dwys gyda delwedd gadarnhaol, a hefyd i sirïoli ardal ein staff - rydym yn ddiolchgar iawn i'r Elusen Iechyd am gydlynw a chefnogi'r prosiect hwn yn ariannol. Diolch."

- JULIE HIGHFIELD, SEICOLEGYDD CLINIGOL YMGYNGHOROL


YSTAFELL ADSEFYDLU THERAPIAU, YSBYTY ATHROFAOL CYMRU

Yn ogystal â gwella'r amgylchedd, nod y gwaith a roddwyd yn yr ystafell Adsefydlu Therapiau yn A4, Ysbyty Athrofaol Cymru oedd cefnogi adferiad cleifion yn weithredol. Dyluniwyd finyl y wal yn benodol ar gyfer y cleifion sy'n defnyddio'r lle ar gyfer adsefydlu ac adfer wrth iddynt gyflawni tasgau pob dydd mewn amgylchedd a gefnogir.



UNED ACHOSION BRYN YSBYTY ATHROFAOL CYMRU

Comisiynwyd yr artist Victoria Perkins i greu rhywbeth i sirïoli'r amgylchedd ar gyfer y rhai sy'n aros ac yn gweithio yn yr Uned Achosion Bryn yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae ei darn, 'We're All in this Together', yn dod â llawenydd mawr i'r adran.






"ER MAI PRIN A WYDDOM AM FFURF, LLIW A GOLAU, GWYDDOM UN PETH, EU BOD YN CAEL EFFAITH FFISEGOL. MAE AMRYWIAETH O RAN FFURF A DISGLEIRDEB Y LLIW YN Y GWRTHRYCHAU A GYFLWYNIR I GLEIFION YN FFORDD WIRIONEDDOL O WELLA"

- FLORENCE NIGHTINGALE

CEFNOGI'R CELFYDDYDAU AR GYFER IECHYD A LLES

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn ffodus iawn o fod yn rhan o gymuned leol gref a hael o artistiaid ac edmygwyr celf. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn ffodus o dderbyn nawdd a rhoddion hael a gwaith celf sydd wedi'i roi i ni am ddim. Mae'r holl roddion hyn yn cyfrannu at gronfa'r Celfyddydau, gan ein galluogi i barhau i ddod â llawenydd i bawb trwy gelf.



"Mae fy mywyd wedi'i achub ac mae'r GIG wedi gofalu amdanaf ers i mi fod yn saith oed ac yn yr holl amser hwnnw ni fu erioed awgrym fy mod yn ddim byd heblaw'n rhywun pwysig sy'n werth y gofal hwnnw. Dyma fy ffordd i o ddweud diolch wrth y bobl a wnaeth hynny." **HARRY HOLLAND - ARLUNYDD**

GEFNOGI'R CELFYDDYDAU AR GYFER IECHYD A LLES

APÊL SHINE BRIGHT – CELFYDDYDAU

Roeddem yn falch o fod yn rhan o Apêl Shine Bright Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro lle noddodd busnesau seren LED i oleuo Ysbyty Athrofaol Cymru ar gyfer ein cleifion a'n staff. Rydym yn ddiolchgar i Bad Wolf am gefnogi Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles trwy noddi seren ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn unig.



MANIC STREET PREACHERS

Bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ffodus o dderbyn rhodd hael iawn o £35,000 gan y Manic Street Preachers yn dilyn eu cyngherddau hynod lwyddiannus yng Nghaerdydd. Bydd rhywfaint o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles i gefnogi staff a chleifion y GIG.



DIWRNOD RHYNGWLADOL GWERTHU CELF ELUSENNOL

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Elusennau, cynhaliodd Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles arwerthiant celf, gan alluogi prynu celf am brisiau hygyrch a fforddiadwy. Roedd pob un o'r eitemau a oedd ar werth yn waith celf gwreiddiol oedd wedi'i roi'n garedig i Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles i'w werthu er mwyn codi arian i gefnogi cleifion a staff y GIG trwy greu amgylcheddau a phrofiadau creadigol.

2020 DIARY OF ARTIST NATHAN WYBURN

Rhyddhaodd Nathan Wyburn, artist, noddwr a chefnogwr brwd Tîm y Celfyddydau a'r Elusen Iechyd ehangach, ei lyfr '2020 Diary of an Artist Nathan Wyburn' mewn cydweithrediad ag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Mae'r llyfr wedi bod yn hynod boblogaidd, ac mae'r holl elw o'r llyfr yn mynd i raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles. Mae'r llyfr yn dal i fod ar werth a gellir ei brynu trwy Cardiffandvale.art



CANOLFAN GENOME CYMRU GYFAN – CARDIFF EDGE

Edrychwn ymlaen at weithio ar raglen gelfyddydau gyffrous ar gyfer adleoli Gwasanaeth Genome Cymru Gyfan i safle newydd yng Ngogledd Caerdydd, gan integreiddio'r celfyddydau creadigol â thechnoleg feddygol arloesol a gwella'r amgylchedd i staff a defnyddwyr gwasanaethau.

YSBYTY ATHROFAOL CYMRU 2

Bydd Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn gweithio gyda'n cydweithwyr ym maes Cynllunio a Dylunio Gwasanaethau ar y dyluniadau cyfalaf ar gyfer ysbyty newydd o'r radd flaenaf. Mae ymgorffori Rhaglen y Celfyddydau yn nyluniad yr adeilad yn galluogi gwreiddio'r celfyddydau creadigol yn adeiladwaith yr adeiladau a'r gwasanaethau a gynigir yno, gan greu cyfleoedd anhygoel i wella bywydau ein cleifion a'n staff ymhellach.

RHAGNODI CYMDEITHASOL

Bydd Agenda Rhagnodi Cymdeithasol y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn parhau i ddatblygu yn 2022, gyda nifer o raglenni cyffrous wedi'u cynllunio, o ymgysylltu â'r Gymuned, Presgripsiynau Gwyrdd Creadigol ar gyfer lles staff a phrosiectau cydweithredol gyda Phrifysgol Caerdydd.

YMGYSYLLTU

Bydd Rhaglen y Celfyddydau yn parhau i hyrwyddo cynwysoldeb ac yn cefnogi artistiaid o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig trwy ein rhaglen 'Ymgysylltu'.

GWASANAETH CYMORTH LLES

Mae Ymgysylltu â Chanolfannau Iechyd a Lles a Hybiau Lles yn rhan ganolog o'n rhaglen 2022 ar gyfer tîm y Celfyddydau, gan weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cymunedol i wella'r amgylcheddau ar gyfer gwasanaethau Lles.

GWASANAETHAU'R CELFYDDYDAU A CHANSER

Bydd tîm y Celfyddydau yn gweithio gyda chydweithwyr o fewn Gwasanaethau Canser ar draws y rhanbarth ar brosiectau cydweithredol gyda staff a chleifion er mwyn cefnogi a gwella profiad cleifion a'u teuluoedd ymhellach tra byddant yn ein gofal.

CELFYDDYDAU AR GYFER COLEG ADFER CAERDYDD A'R FRO

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Choleg Adfer Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Cwricwlwm y Celfyddydau ymhellach ar gyfer 2022.



RUTH WALKER

CYFARWYDDWR NYRSIO GWEITHREDOL

Fel pob sefydliad GIG a gofal cymdeithasol arall, rydym ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn wynebu lefel ddigynsail o alw am ein gwasanaethau a'n staff. Nawr, yn fwy nag erioed, yn ogystal â thriniaeth feddygol, mae angen i ni barhau i ofalu am les emosiynol, ysbrydol a meddyliol ein cleifion, ein staff a'n cymunedau.

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio'n ddiflino i ddarparu seibiant o'r heriau rydym i gyd yn eu hwynebu, gan roi cyfleoedd i werthfawrogi a chymryd rhan yn y celfyddydau creadigol. Nid yw hyn wedi bod yn hawdd, a bu'n rhaid i'r Tîm addasu i'r byd rhithwir newydd, ond maent wedi ymateb i'r her ac wedi darparu celf, cerddoriaeth a chyfleoedd i rai o'n cleifion mwyaf agored i niwed.

Rwy'n hynod falch o Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rydym yn torri cwys newydd ym maes y Celfyddydau a Gofal Iechyd, gan weithio gyda phartneriaid fel Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn rhannu gallu'r celfyddydau i helpu gyda gofal iechyd yng Nghymru a'r tu hwnt.

Nod ein Strategaeth y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yw helpu i atal salwch a lleihau'r straen ar wasanaethau lle bynnag y bo modd, gan gefnogi triniaeth a chyfrannu at ail-ddylunio gwasanaethau fel prosiect CF Voices yn yr Uned Ffibrosis Systig.

Rydym yn cydnabod gallu'r celfyddydau i gynorthwyo gyda thriniaeth feddygol, yn ogystal â meithrin yr enaid. Mae prosiect rhagnodi cymdeithasol cydweithredol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru a dau o'n cyd-Fyrddau Iechyd yn cynnwys cantorion yn gweithio gydag arbenigwr anadlol i drin cleifion â COVID Hir trwy ymarferion anadlu a chanu, gan ddefnyddio llwyfan rhithwir i gyflwyno rhaglen y gobeithir ei chyflwyno ledled Cymru yn y flwyddyn newydd.

Mae angen pethau calonogol a chadarnhaol arnom i edrych ymlaen atynt ac rwy'n gwybod y bydd y prosiectau celfyddydol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2022 yn cynnig mwy o gyfleoedd gwych i ymgorffori celf yn y ffordd yr ydym yn gofalu am ein staff a'n cleifion, y ffordd yr ydym yn cynllunio ein gwasanaethau a hefyd yn yr etifeddiaeth a ddarparwn ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau Caerdydd a Bro Morgannwg.

"MAE'R RHAN FWYAF O'R CYLLID A'R YMDRECHION MEWN PERTHYNAS AG IECHYD YN MYND TUAG AT DRIN AFIECHYD YN HYTRACH NA'I ATAL. RWYF WEDI ARGYMELL SYSTEM NEWYDD SY'N BLAENORIAETHU CADW POBL YN IACH YN Y LLE CYNTAF. MAE DIWYLLIANT, GAN GYNNWYS Y CELFYDDYDAU, YN FECANWAITH PWERUS AR GYFER CYNNAL IECHYD DA AC ATAL SALWCH. MAE RHAGLEN Y CELFYDDYDAU AR GYFER IECHYD A LLES YN ADEILADU'N GLIR AR YR ARGYMHELLIAD HWN AC MAE'N GWELLA IECHYD A LLES CLEIFION, DEFNYDDWYR GWASANAETHAU, GOFALWYR, YMWELWYR A STAFF."

SOPHIE HOWE, COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU